| Cwestiynau a Ofynnir yn Aml | |
|---|---|
| **Beth mae Addysg Gymraeg yn ei gynnig?** | Mae nod syml iawn gan addysg cyfrwng Cymraeg – caniatáu plant i ddod yn gwbl huawdl yn y Gymraeg a'r Saesneg tra'n addysgu'r holl bynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae plant ifanc yn dysgu ieithoedd yn hawdd – drwy fanteisio ar y potensial yma, mae addysg cyfrwng Cymraeg wedi dod mor boblogaidd. |
| **Pam fod pobl yn dewis addysg Gymraeg?** | Mae ymchwil yn dangos mai dyma'r ffordd orau i sicrhau bod plant yn ddwyieithog yn Saesneg a'r Gymraeg.<br><br>Mae nifer o fanteision pan eich bod yn ddwyieithog. Mae'n ddefnyddiol fel sgil yn y gweithle: mae'r gallu i siarad Cymraeg naill ai yn sgil hanfodol neu'n sgil dymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi. Mae mwy o alw heddiw nag erioed o'r blaen am sgiliau dwyieithog mewn nifer o feysydd fel iechyd, addysg, hamdden, gofal plant, manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru ddwyieithog drwy'i strategaeth iaith Gymraeg, 'Cymraeg 2050', gyda gweledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Mae siarad Cymraeg yn medru helpu plant i adeiladu dealltwriaeth well o'u cymuned ehangach a'u lle hwy o fewn y gymuned.<br><br>Mae'r Gymraeg yn rhoi'r cyfle i blant i fwynhau diwylliant – gan gynnwys llenyddiaeth, cerddoriaeth, cyfryngau digidol a llu o bethau eraill – na fyddai ar gael iddynt fel arall.<br><br>I rai pobl, mae dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar brofiadau personol: maent yn adnabod pobl sydd yn ddwyieithog neu mae eu plant yn ddwyieithog, ac maent am weld eu plant yn rhan o'r gymuned Gymraeg eu hiaith, tra'n hollol gyfforddus yn Saesneg hefyd. |
| **A yw addysg cyfrwng Cymraeg yn addas ar gyfer fy mhlentyn ac a yw fy mhlentyn yn medru gwneud cais am le?** | Heb os nac oni bai! Mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, mae addysg yn cael ei chynnig mewn modd sydd yn caniatáu plant, o oedran cynnar, i siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'r ffordd yr ydym yn dysgu Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnwys dull o ymdrochi. Mae hyn yn golygu amgylchynu'r plentyn yn yr iaith Gymraeg, a hynny o'r Feithrinfa a bydd hyn yn parhau drwy gydol eu haddysg. Mae Saesneg yn cael ei dysgu hefyd yn ddifrifol o Flwyddyn 3, ac felly, bydd eu sgiliau llythrennedd yn y ddwy iaith yn cael eu datblygu mewn modd sydd yn gyfartal. |
| **A yw'r Iaith Gymraeg yn cael effaith ar eu** | Wel, na, gan fod y dull yma wedi ei ddefnyddio ers blynyddoedd lawer er mwyn trosglwyddo ieithoedd o un |

| | |
|---|---|
| **sgiliau Saesneg neu ieithoedd eraill yn y cartref?** | genhedlaeth i'r llall. Yng Nghymru, mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn meddu ar statws cyfartal ac mae mwy a mwy o swyddi yn chwilio am sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Mae Saesneg neu iaith arall sy'n cael ei siarad yn y cartref hefyd yn amlwg yn y gymuned, ac yn cael eu clywed a'u defnyddio gan y plentyn ar yr un pryd ag y mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu yn yr ysgol! |
| **Nid ydym yn siarad Cymraeg yn y cartref – a fydd fy mhlentyn ar ben ei hun?** | Dim o gwbl. Yn wir, nid yw'r rhan helaeth o blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Sir Fynwy yn siarad Cymraeg adref, ac i rai ohonynt, nid Saesneg yw iaith y cartref.<br><br>Felly, mae dod o gefndir na sydd yn siarad Cymraeg yn gwbl normal ac mae'r cwricwlwm wedi ei ddylunio mewn modd sydd yn ystyried hyn.<br><br>Nid yw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn disgwyl bod y plant yn siarad Cymraeg pan eu bod yn dechrau ond byddant yn helpu'r plant i ddod yn rhugl yn y Gymraeg cyn diwedd y flwyddyn gyntaf.<br><br>Mae pob teulu – a phob plentyn – yn unigryw wrth gwrs. Ond mae pob math o deuluoedd yn manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg: teuluoedd na sydd yn siarad Cymraeg a'r rhai sy'n siarad Cymraeg; teuluoedd o bob math o gefndiroedd ethnig a chrefyddol; teuluoedd o Gymru a'r sawl sydd wedi symud i'r wlad. |
| **Sut wyf yn medru helpu fy mhlant gyda gwaith cartref os nad wyf yn siarad Cymraeg?** | Gan nad yw'r rhan fwyaf o blant yn siarad Cymraeg, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn brofiadol iawn yn cefnogi disgyblion a rhieni.<br><br>Ar gyfer disgyblion iau, bydd cyfarwyddiadau ar gyfer gwaith cartref yn cael eu rhoi yn Saesneg a'r Gymraeg. Yn hwyrach, bydd plant yn medru esbonio eu gwaith i'w rhieni. Mewn gwirionedd, mae ymchwil yn awgrymu fod delio gyda'u gwaith mewn dwy iaith yn medru helpu plant i ddeall y pwnc y maent yn ei astudio. |
| **Mae fy mhlentyn eisoes wedi dechrau ysgol gynradd. A wyf yn medru newid i ysgol gynradd Cymraeg nawr?** | Yn sicr! Mae yna ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl sydd yn dymuno newid o ysgol cyfrwng Saesneg i ysgol cyfrwng Cymraeg ac mae'n cael ei alw'n Ganolfan Drochi. Yma, mae disgyblion yn derbyn sgiliau dwys yn y Gymraeg mewn amgylchedd sydd wedi ei baratoi'n bwrpasol fel eu bod, ar ôl cyfnod byr, yn medru ymuno gyda'u dosbarth yn yr ysgol. Yn Sir Fynwy, mae'r ganolfan drochi yn Ysgol Gymraeg y Ffin ar gyfer unrhyw ddisgybl/plentyn o Flwyddyn 1 ac uwch. |

| | |
|---|---|
| | Mae hyn yn digwydd dros derm neu fwy os oes angen y gefnogaeth. |
| **A fydd cludiant yn cael ei ddarparu i ysgolion cyfrwng Cymraeg?** | Mae polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol gan y Cyngor, ac mae'n cynnig cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer unrhyw ddisgyblion cynradd sydd yn byw mwy na 1.5 milltir i ffwrdd o'r ysgol.<br><br>Dylid nodi nad yw cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion i'w hysgolion agosaf neu'r ysgol dalgylch ac os ydych yn penderfynu danfon eich plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg, ac nid dyma'r ysgol agosaf neu'r ysgol dalgylch, bydd hyn yn cael ei ystyried fel dewis y rhieni, ac ni fyddwch o bosib yn derbyn cludiant am ddim. |
| **Beth am eu haddysg ar ôl gadael yr ysgol?** | Gan fod disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn hollol ddwyieithog, maent yn medru dewis dilyn cyrsiau coleg neu'r brifysgol yn y naill iaith neu'r llall (neu'r ddwy iaith). Yn ddiweddar, mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sicrhau bod mwy a mwy o raddau prifysgol ar gael (yn rhannol neu'n llwyr) drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae nifer cynyddol o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael ym maes Addysg Bellach hefyd. Er hyn, mae myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn aml yn dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg yn y coleg neu'r brifysgol, a hynny yng Nghymru a thu hwnt. |
| **A wyf yn medru dysgu Cymraeg gyda'm mhlentyn?** | Mae rhai rhieni, ar ôl dewis ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer y plentyn, yn penderfynu dysgu Cymraeg hefyd. Mae'n gyfle gwych i ddysgu gyda'ch gilydd, ymarfer eich sgiliau iaith gyda'ch gilydd a threulio amser safonol gyda'ch gilydd.<br><br>Mae cyrsiau Cymraeg ar gyfer Oedolion ar gael ar hyd a lled Sir Fynwy, boed wyneb i wyneb, ar-lein neu ddysgu'ch hun ac maent yn addas i ddysgwyr o bob lefel. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan Dysgu Cymraeg |